

Canllawiau logo Llywodraeth Cymru 2024

Os ydych yn cynhyrchu gwaith cyfathrebu a marchnata ar ran Llywodraeth Cymru mae'n hanfodol eich bod yn darllen a deall yr wybodaeth yn y canllawiau hyn.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Cynnwys

Logo Llywodraeth Cymru	3
Caniatâd	4
Amrywiadau logo Llywodraeth Cymru	5
Label Llywodraeth Cymru	6
Lliw'r label Llywodraeth Cymru	7
Canllawiau Dylunio	8
Logos cydnabyddiaeth Llywodraeth Cymru	11
Prosiectau Cyfalaf a Seilwaith	12
Prosiectau llai	13
Gwefan	15
Cysylltu â ni	15

Rhif cymeradwyaeth

Wrth baratoi deunyddiau o dan fframwaith Llywodraeth Cymru cewch rif cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru y bydd rhaid ei gynnwys ar bob darn o waith celf.

Cyn cwblhau gwaith rhaid ichi gyflwyno proflenni i Dîm Dylunio Canolog Llywodraeth Cymru neu

design@llyw.cymru

Wrth gwblhau gwaith rhaid ichi ddarparu'r holl waith celf gwreiddiol i Dîm Dylunio Canolog Llywodraeth Cymru, a rhaid nodi rhif cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru yn glir ar y gwaith hwnnw.

Os oes gennych ymholiadau ynglŷn â'r broses gymeradwyo neu gyflenwi gwaith celf cysylltwch â Thîm Dylunio Canolog Llywodraeth Cymru ar **design@llyw.cymru**

Caffael print

Mae Llywodraeth Cymru yn prynu print drwy Fframwaith Gwasanaethau Print Cymru Gyfan.

Ni ddylech ymgymryd ag unrhyw weithgarwch caffael print ar ran Llywodraeth Cymru.

Os oes gennych ymholiadau ynglŷn â chaffael print cysylltwch â Thîm Gwasanaethau Print Canolog Llywodraeth Cymru ar **03000 253795**.

Grantiau a phrosiectau cyfalaf

Y gangen noddi yn Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am:

– fonitro telerau ac amodau pob grant a weinyddir ganddi. Mae hyn yn cynnwys yr holl gyfeiriadau at frandio.

– sicrhau bod pob prosiect yn cael ei frandio'n gywir.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Logo Llywodraeth Cymru

Mae'r elfennau hyn mewn perthynas sefydlog â'i gilydd, na ddylid ei newid mewn unrhyw ffordd

Mae ein logo yn ddraig gyda theitl dwyieithog, wedi'i gwahanu gan linell lorweddol.

Mae lliw ein logo yn ddu neu wyn.
Ni chaniateir lliw arall.

Cysylltu â ni

Dylid gwneud cais i ddefnyddio'r logo drwy e-bostio:

brandingqueries@llyw.cymru

Caniatâd

Rhaid cael caniatâd ysgrifenedig Llywodraeth Cymru cyn bod sefydliad allanol yn gallu arddangos ein logo.

Gall unrhyw un o swyddogion Llywodraeth Cymru gymeradwyo cais neu cysylltwch â **brandingqueries@llyw.cymru**

Bydd yn rhaid bodloni'r meini prawf canlynol:




- Rhaid arddangos ein logo ar gyhoeddiadau neu ddeunyddiau lle mae Llywodraeth Cymru'n gyfrannwr sylweddol.
- Gellir defnyddio ein logo ar bob math o waith a gynhyrchir gan, neu ar ran Llywodraeth Cymru.

Pan fydd y logo'n cael ei arddangos wrth ochr logos eraill, rhaid iddo fod yr un mor amlwg â'r lleill.

Lleiafswm y maint: **22mm** o led

Nid oes cyfyngiad o ran y mwyafswm maint.

Gofalwch fod digon o le gwag o amgylch ein logo.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Amrywiadau logo Llywodraeth Cymru

1

Logo Llywodraeth Cymru



2

Label Llywodraeth Cymru

Rhaid dangos y logo ar gyhoeddiadau, deunyddiau marchnata a deunyddiau arddangos a ddarperir gan Lywodraeth Cymru.



3

Logo cydnabyddiaeth

Er mwyn cydnabod cefnogaeth gan Lywodraeth Cymru.



4

Dim logo

Ymgyrchoedd ar gyfer newid ymddygiad lle ystyrir bod logo Llywodraeth Cymru yn rhwystyr i gyflawni.
Neu linell ddisgrifiadol syml os yw'n briodol:

Ariennir y prosiect hwn gan Lywodraeth Cymru

Label Llywodraeth Cymru

Mae ein logo yn cael ei arddangos ar gyhoeddiadau Llywodraeth Cymru, cyfathrebiadau marchnata a deunyddiau arddangos.

Er mwyn sicrhau cysondeb yn ein holl ddeunyddiau cyfathrebu mae ein logo yn cael ei osod mewn 'label'.

Darn o liw fflat, y mae ei faint yn gymesur â maint y deunydd lle y mae'n cael ei osod yw'r label.

Mae logo Llywodraeth Cymru a'r label wedi eu canoli â'i gilydd. Ni ddylid addasu maint y label o'i gymharu â'r logo.

Lleoliad

Dylai'r label gael ei leoli bob amser wrth ymyl uchaf deunyddiau.

Maint

Pan osodir y label ar eitemau eraill fel posteri, taflenni a deunyddiau arddangos; gallwch benderfynu newid maint y label er mwyn bod yn gymesur â maint y deunyddiau lle y mae'n cael ei osod.

Lleiafswm y maint:
30 o led

Nid oes cyfyngiad o ran y mwyafswm maint.

Asedau cyfryngau cymdeithasol

Mae'r un rheolau yn berthnasol i asedau cyfryngau cymdeithasol ond heb y cyfyngiad maint lleiaf.



Meithrin Gallu drwy Ofal Cymunedol – Ymhellach, Yn Gyflymach

Datganiad o Fwriad Llywodraeth Cymru

Lliw'r label Llywodraeth Cymru

Gallwch liwio label Llywodraeth Cymru mewn unrhyw un lliw, fflat. Dylid ystyried lliw dyluniad eich prosiect neu ymgyrch, neu'r lluniau a ddefnyddir, wrth ddewis lliw'r label.

Pantone 1797 a ffefrir ar gyfer deunyddiau Gweinidogol Llywodraeth Cymru.

Dim ond mewn du neu wyn y ceir liwio logo Llywodraeth Cymru sy'n ymddangos yn y label.

Lliw'r label fydd yn pennu a ddylai'r logo fod yn ddu neu'n wyn:

Label mewn lliw golau – logo du

Label mewn lliw tywyll – logo gwyn



Canllawiau dylunio

Deunyddiau ymgyrchu

Rydym eisiau ein deunyddiau ymgyrchu i fod mor ddeniadol â phosibl ac heb ei rwymo gan dempled neu fformat anhyblyg.

Mae hyn yn caniatáu ymgyrch i gael ei hunaniaeth weledol ei hun mewn termau o liw, ffont, ffotograffiaeth a graffeg.

Yr unig ofyniad ar draws yr holl ddeunyddiau ymgyrchu yw gosod label Llywodraeth Cymru, fel y disgrifir ar dudalen 6.

Deunyddiau di-ymgyrch

I raddau llai, mae gan ddeunyddiau corfforaethol nad ydynt yn ymwneud ag ymgyrchoedd, ryddid tebyg i fynegi eu hunain yn weledol.

Fodd bynnag, ar gyfer y deunyddiau hyn, rydym yn defnyddio ffurfdeip a ffefrir ac yn defnyddio templed cysodi corfforaethol, fel sail i ddogfennau nad ydynt yn gysylltiedig â hunaniaeth ymgyrch.

Teip

Ar gyfer deunyddiau nad ydynt yn ymwneud ag ymgyrch, ein ffurfdeip a ffefrir yw Proxima Nova.

Proxima Nova Light
Proxima Nova Regular
Proxima Nova Medium
Proxima Nova Bold

Mae'r Proxima Nova ffurfdeip cyflawn ar gael ar Adobe Ffontiau (OpenType, Schoolbook, Style, Stylistic Set).

Teip eilradd

Ar gyfer defnyddwyr heb fynediad i'n ffurfdeip a ffefrir rydym yn ei argymhell gan ddefnyddio Arial.

Ffurfdeip cynhwysol

Ar gyfer deunyddiau fel hawdd eu darllen rydym yn argymhell defnyddio cynhwysol ffurfdeip fel FS Me.

Coch corfforaethol

Pantone 1797 yw ein dewis lliw ar gyfer deunyddiau Gweinidogol Llywodraeth Cymru.

Yn nodweddiadol, defnyddir y lliw hwn ar gloriau dogfennau Gweinidogol.

Deunyddiau ymgyrchu Llywodraeth Cymru



Bydd cyfraith Ailgylchu yn y Gweithle yn dechrau Ebrill 2024. Gadewch i ni sortio:

Papur a cherdyn

Plastig, cartonau a metel

Tecstilau heb eu gwerthu

Gwastraff bwyd

Gwydr

Cyfarpar bach trydanol

ac electronig heb ei werthu





Mae deunyddiau ymgyrchu yn defnyddio ffontiau, lliwiau, ffotograffiaeth a graffeg sy'n unigryw i'r ymgyrch hunaniaeth.

Yr unig ofyniad os defnyddir logo Llywodraeth Cymru yw cydymffurfio â'r safonau a nodir yn y canllawiau hyn.





SAFWN YN ERBYN TROSEDD GASINEB



PECYN PARTNER

MAE CASINEB YN BRIFO CYMRU

llyw.cymru/casinebynbrifo

GWELD. CLYWED. RIPORTIO.

9

Deunyddiau corfforaethol

Ein hoff ffurfdeip ar gyfer deunyddiau corfforaethol yw Proxima Nova.
Mae dogfennau'n cael eu cysodi gan ddefnyddio'r templed corfforaethol.
Pantone 1797 yw'r lliw a ffefrir ar gyfer dogfennau Gweinidogol.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Y Cytundeb Cydweithio – Adroddiad Blynyddol

2021-2022

Creu Cymru Unedig, sy'n Decach i Bawb

Wrth inni adfer o'r pandemig, rydym yn benderfynol y bydd pawb yn rhannu cyfleoedd y dyfodol, lle bynnag y maent yn byw, fel nad oes neb yn cael eu dal yn ôl na'u gadael ar ôl. Rydym am weld Cymru lle y mae pawb yn cael eu parchu ac amrywioeth yn cael ei ddiogelu. O ystyried y perygl y bydd yr anghydraddoldebau sy'n bodoli eisoes yn ynnwneiddio o ganlyniad i'r angyfhwng costau byw digymaill hwn, gyda mwya'r bobl eto yn syrthio i ddiol, rhaid inni gymryd ein hymdrechion. Bydd Cymru yn parhau i roi croeso cynnes i bawb. Mae'r rhyfel yn Wcrain wedi dangos yn union pa mor gynnes yw'r croeso hwnnw wrth i filoedd o bobl geisio lloches a diogelwch yma.

Strategaeth Ddiwylliant – Rydym wedi cyfuno ar gampas a chyfnewid ein Strategaeth newydd a fydd yn canolbwyntio ar ddiwylliant a'r celfyddydau, gan adlewyrchu amrywiaeth Cymru, ei iaith Gymraeg sy'n ffurfio ein dyfeiniadau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Bydd yn adeiladu ar yr ynnwymadau ar y cyd sydd wedi eu nodi osers yn y Rhaglen Lywodraethu ar ei newydd wedd ac yn cyswrtu sicrhau bod diwylliant yn chwarae cymaint o ran â phobol i helpu i gyflawni'r ynnwymadau hynny ar draws y Rhywedd.

Bydd y Strategaeth yn cael ei datblygu drwy ymgynghori'n helaeth a handdioldeb ledled Cymru. Rydym wedi lansio gwaith ddioldeb ar Gwerthwch Gymru ar gyfer bod yn barhau amswedd i wellio cyda ni ei meys bennaf all ar feddadau ymgysylltu a handdioldeb ac ygybwynt Strategaeth.

Mae'r **Oriel Gelf Cyfoes Cenedlaethol** yn cael ei ddatblygu gan gripiu bywio sy'n cynnwys Cynghor Celfyddydau Cymru, Amgueddfa Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

Safonau'r Gymraeg – Yn mis Mehefin, pasiodd y Seuedd Safonau'r Gymraeg newydd i gyflwyno safonau ar gyfer naw corff y DU sy'n darparu gwasanaethau yn y sector iechyd – syth corff rheoleddio proffesiynol ar Awdardd Safonau Proffesiynol. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn awr yn gallu gosod safonau ar y cyffwrdd i fydd yn rhoi bawla i arloesu cyfnewid ddiwylliant Gymraeg wrth ddioldeb gwasanaethau a ddarperir ganddyni.

Y Cleg Gymraeg Cenedlaethol a'r Gantaf Dysgu Gymraeg Cenedlaethol – Ers mis Medi, mae pobl ifanc o 18 i 25 oed wedi cael mynediad at gymraeg Gymraeg am ddim gyda'r Gantaf Dysgu Gymraeg Cenedlaethol. Bydd adroddi e-ddysgu newydd, a ddarperir gan Say Something in Welsh, yn cael ei droi i ar gyfer pobl ifanc 16-18 oed i newn ysgolion, colegau neu lefannau o gyfrifan grefyddol, i wellio eu sgiliau Gymraeg i ffar.


Rhydweth Seem – Yn yr haf, cymerodd digyblion blaiddyn 11 ran meys ysgol hof breswyl yn Mrelysgol Aberystwyth, fel than oraglen beio i ehangu partneriaethau ysgol haf sydd ar waith eisoes a sefydlu cyfnewidau peio newydd meys sefydladau yng Nghymru.

Gellir ehangu ar y templed a'i addasu yn dibynnu ar y gynulleidfa, cymhlethdod a natur y cynnwys.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Y Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru



llyw.cymru

Logos cydnabyddiaeth Llywodraeth Cymru



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government



Ariennir yn Rhannol gan
Lywodraeth Cymru
Part Funded by
Welsh Government



Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

Rydym wedi datblygu set o logos 'cydnabyddiaeth' i'w defnyddio pan fydd angen egluro'n benodol y berthynas rhwng sefydliad/prosiect a Llywodraeth Cymru.

Os yn briodol, gellir eu defnyddio yn lle ein prif logo.

Maent ar gael mewn cynllun 'portread' neu 'dirlun'.

Mae logos cydnabyddiaeth naill ai'n ddu neu'n wyn.

Ni chaniateir defnyddio unrhyw liw arall.

Lleiafswm y maint:
40mm o led

Nid oes cyfyngiad o ran y mwyafswm maint.

Ni ddylid newid y logos hyn mewn unrhyw ffordd.

Dewis Logo Cydnabyddiaeth

'Ariennir gan' neu 'Ariennir yn Rhannol gan'

I'w ddefnyddio gan sefydliadau sy'n derbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer prosiectau fel digwyddiadau neu wyliau neu ar gyfer gwaith marchnata

'Noddwyd gan'

I'w ddefnyddio gan gyrff a noddir gan Lywodraeth Cymru ar eu holl ddeunyddiau. Rhaid i gyrff a noddir arddangos y logo hwn i ddangos eu bod yn bartneriaid a noddir gan Lywodraeth Cymru.

Mae logos cydnabyddiaeth eraill ar gael ar gais e.e. 'Cefnogir gan', 'Mewn Partneriaeth'.

Prosiectau Cyfalaf a Seilwaith

Bob blwyddyn mae Llywodraeth Cymru yn buddsoddi miliynau o bunnoedd yn nyfodol ein gwlad. Mae ein llwyddiannau yn bwysig i ni, ac rydym yn falch o roi ein brand ar yr holl brosiectau rydym yn ymwneud â nhw, p'un a yw hynny'n golygu gwella canolfan gymunedol, adeiladu ysgol newydd, adeiladu adran newydd mewn ysbyty, gwella ffyrdd neu wella gorsafoedd rheilffordd.

Rydyn ni'n falch o'r datblygiadau hyn, ac mae faint sy'n cael ei fuddsoddi yn amrywio o filoedd i gannoedd o filoedd o bunnoedd – gan wella bywydau pobl ledled Cymru.

Yn amlwg rydym eisiau ei gwneud yn hawdd i bobl weld bod Llywodraeth Cymru yn cyfrannu at y llwyddiannau hyn.

Bydd y canllaw hwn yn rhoi dealltwriaeth dda o'r ffordd rydym eisiau cael ein cydnabod a sut rydym am gyfrannu at gerrig milltir pob prosiect, o dorri'r dywarchen gyntaf, i seremoni gosod y garreg gopa a'r agoriad swyddogol.

Mae cydnabod Llywodraeth Cymru yn rhan annatod o'r contract ac yn amod o'r grant. Byddwn yn monitro pob prosiect i sicrhau bod llwyddiannau Llywodraeth Cymru yn cael eu cydnabod yn llawn. Os bydd angen, byddwn yn ddigon bodlon eich helpu i ddylunio a datblygu byrddau a phlaciau i'w gosod ar safleoedd.

Beth yw Prosiect Cyfalaf?

Yn syml, ystyr Prosiect Cyfalaf yw buddsoddiad hirdymor sydd angen symiau mawr o arian i ddatblygu, gwella neu gynnal amrywiaeth o asedau fel tir, adeiladau a ffyrdd.

Mae Llywodraeth Cymru yn buddsoddi mewn nifer sylweddol o brosiectau bob blwyddyn, gydag arian yn dod o lawer o wahanol ffynonellau.

Mae'n rhaid i brosiectau mawr ddilyn nifer o ofynion i sicrhau eu bod yn cydnabod cyfraniad Llywodraeth Cymru.

Mae hyn yn cynnwys:

- Cydnabod Llywodraeth Cymru mewn datganiad i'r wasg. Gall un o swyddogion y wasg Llywodraeth Cymru ein helpu i gael dyfyniad gan Weinidog. Cysylltwch â swyddfa'r wasg Llywodraeth Cymru ar **03000 258099**.

- Dylid cydnabod Llywodraeth Cymru ym mhob deunydd marchnata a chyfathrebu ynglyn â'r prosiect.
- Dylai arwyddion ar safleoedd gydnabod Llywodraeth Cymru bob amser. Cysylltwch â **brandingqueries@llyw.cymru** i gael cymeradwyaeth ar gyfer gwaith celf.
- Dylai brand Llywodraeth Cymru fod yr un mor amlwg â logo unrhyw bartner arall.
- Dylid hysbysu Llywodraeth Cymru cyn unrhyw garreg filltir allweddol fel seremoni gosod y garreg gopa, agoriad, a chynlluniau a threfniadau lansio.
- Dylid gosod arwydd neu blac dwyieithog ar ôl cwblhau'r prosiect yn cydnabod yn ffurfiol gyfraniad Llywodraeth Cymru. Cysylltwch â **brandingqueries@llyw.cymru** i gael cymeradwyaeth ar gyfer gwaith celf.

Prosiectau llai

Yn achos prosiectau llai, fel y rheini sy'n cael arian o Gronfeydd Trwsio a Gwaith Grant, bydd plac syml yn ddigonol.

Prosiectau Tai Cymdeithasol

Yn ystod y cyfnod adeiladu mae'n ofynnol bod arwyddion amlwg yn cael eu harddangos ar y safle. Ond, unwaith mae'r prosiect wedi'i gwblhau nid oes angen arddangos plac nac arwydd parhaol.

Arwyddion a Phlaciau

Mae'n rhaid i brosiectau sydd wedi cael cyllid gan Lywodraeth Cymru arddangos logo Llywodraeth Cymru neu logo i gydnabod Llywodraeth Cymru ar arwyddion a phlaciau.

Nid oes cynllun unffurf ar gyfer y geiriau ar blac oherwydd bod y gofynion yn amrywio o un prosiect i'r llall. Fodd bynnag, dylai pob plac fod yn ddwyieithog, gan osod y ddwy iaith yn gyfartal. Dylai'r plac gynnwys y logo bob amser os yw'n cydnabod cyllid.



Wrth benderfynu ar y geiriad ar gyfer placiau, cofiwch y canlynol:

- Mae angen bod plac yn adrodd y stori, felly meddyliwch am y neges rydych chi eisiau ei chyfleu (Ydy'r plac yn cydnabod cyllid? Ydy'r plac yn gofnod o seremoni agoriadol? Efallai fod y plac yn gwneud y ddau beth hyn? Ydy'r plac yn cynnwys enw'r prosiect? Pwy sydd ynghlwm ag ef? Y dyddiad?).
- Mae angen cyfleu'r neges yn glir, yn syml a bod yn ffeithiol yn unig.

Os yw plac neu arwydd yn hyrwyddo rhaglen neu brosiect a ariennir gan Lywodraeth Cymru, dylid sicrhau bod y testun Cymraeg yn cael ei roi mewn man ar y plac neu'r arwydd hwnnw fel ei fod yn debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf.


Os bydd Gweinidog yn cael gwahoddiad i ddatguddio plac, dylid sicrhau bod swyddfa'r Gweinidog perthnasol yn ymwybodol ac yn cael cyfle i wneud sylwadau.

Dylid ysgrifennu dyddiadau gan ddilyn y patrwm 01 Ionawr 2023 yn Gymraeg a 01 January 2023 yn Saesneg.

Peidiwch â defnyddio 'af', 'ail', 'ydd', 'ed', 'eg', 'fed' nac 'ain' yn Gymraeg.

Peidiwch â defnyddio 'st', 'nd', 'rd', na 'th' yn Saesneg.

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â thîm brandio Llywodraeth Cymru ar **03000 256860** neu e-bostiwch: **brandingqueries@llyw.cymru**



Gwefan

Wrth osod Logo Llywodraeth Cymru ar wefannau allanol, mae'r un rheolau'n berthnasol ag ar ddeunyddiau eraill. Dylai'r logo fod yn amlwg, yn ddarllenadwy o ran maint ac o gyferbyniad addas â'r cefndir.



Mae fersiwn tirlun ein logo yn benodol ar gyfer gwefan gorfforaethol Llywodraeth Cymru. Ni ddylai gael ei gopïo o'r wefan na'i ddefnyddio ar gyfer unrhyw ddeunyddiau eraill heblaw mewn amgylchiadau eithriadol. Os felly, am ganiatâd cysylltwch â: **brandingqueries@llyw.cymru**



Cysylltu â ni

Dylunio
E-bost: design@llyw.cymru
Ffôn: 03000 250821
Cyfeiriad:
Llywodraeth Cymru
Cyfathrebu
Parc Cathays
Caerdydd CF10 3NQ

Print
Ffôn: 03000 253795

Brandio
E-bost:
brandingqueries@llyw.cymru
Ffôn: 03000 256860

Contractau
Ffôn: 03000 259743